# Gofal a rennir - Taflen wybodaeth i gleifion

## Beth yw gofal a rennir?

Mae gofal a rennir yn gytundeb ffurfiol rhyngoch chi a dau weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n delio â'ch triniaeth. Fel arfer, y rhain yw eich arbenigwr (megis: meddyg ymgynghorol, meddyg ysbyty neu weithiwr gofal iechyd arall a all ragnodi meddyginiaethau) a gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu (megis: meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd arall a all ragnodi meddyginiaethau).

Mae gofal a rennir yn caniatáu i'ch arbenigwr drosglwyddo rhywfaint o'ch triniaeth gyda [insert medicine name here] i weithiwr gofal iechyd yn eich meddygfa, pan fo hyn yn addas ac er eich lles gorau. Mae gofal a rennir yn caniatáu iddyn nhw barhau i ragnodi meddyginiaeth i chi a ddechreuwyd gan eich arbenigwr a dylai fod yn fwy cyfleus i chi dderbyn rhywfaint o'ch triniaeth. Nid yw eich arbenigwr wedi eich rhyddhau – mae eich triniaeth yn cael ei rhannu rhwng eich arbenigwr a'r gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu.

Rhaid i'ch arbenigwr a'r gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu gytuno i rannu gofal. Os nad ydyn nhw'n cytuno, bydd eich arbenigwr yn parhau i fod yn gyfrifol am eich triniaeth.

## Sut mae gofal a rennir yn gweithio?

Cyn i chi ddechrau triniaeth gyda meddyginiaeth, bydd eich arbenigwr yn egluro:

- manteision a risgiau triniaeth, ac yn rhoi unrhyw wybodaeth ysgrifenedig y gallai fod ei hangen arnoch
- yr angen i fonitro'r driniaeth a sut y bydd hyn yn cael ei drefnu
- eu rôl nhw, eich rôl chi, a rôl y gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu wrth ddelio â'ch triniaeth.

Os byddwch chi'n cytuno, bydd eich arbenigwr yn dechrau rhagnodi eich meddyginiaeth ac yn trefnu monitro. Gall monitro gynnwys profion gwaed a gwiriadau iechyd eraill, er mwyn sicrhau bod eich cyflwr yn ymateb yn dda i'r driniaeth.

Pan fydd eich arbenigwr yn credu eich bod ar ddos sefydlog o feddyginiaeth, ac os ydych chi'n cytuno, byddant yn gofyn i'r gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu am ofal a rennir.

Bydd eich arbenigwr yn parhau i ragnodi eich meddyginiaeth a monitro eich triniaeth wrth aros i'r gweithiwr gofal iechyd yn eich meddygfa ystyried gofal a rennir. Os bydd y gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu yn cytuno, byddant yn cymryd cyfrifoldeb am y rhagnodi a'r monitro yn unol â chais eich arbenigwr a byddant yn dechrau rhoi presgripsiynau i chi.

Bydd eich arbenigwr yn dal i oruchwylio eich triniaeth ac adolygu eich cynnydd yn eu clinig, yn unol â'ch cynllun rheoli gofal. Os bydd unrhyw beth yn newid yn eich iechyd, bydd eich arbenigwr yn adolygu eich triniaeth.

## Beth yw manteision gofal a rennir?

Byddwch chi'n parhau gyda'r un driniaeth, heb orfod mynd i weld eich arbenigwr mor aml.

Mae eich arbenigwr a'r gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu ill dau yn rhan o'ch triniaeth. Bydd y ddau yn monitro eich cynnydd a bydd y gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu yn rhoi gwybod i'ch arbenigwr os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon.

## Beth yw fy rôl i mewn gofal a rennir?

Cymerwch eich meddyginiaeth fel y'i rhagnodir a darllenwch yr holl wybodaeth y mae eich arbenigwr yn ei rhoi i chi.

Ewch i bob apwyntiad gyda'r gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu a chyda'ch arbenigwr, gan gynnwys ymweliadau monitro rheolaidd, fel profion gwaed ac archwiliadau iechyd. Mae'r ymweliadau hyn yn helpu i asesu pa mor dda mae'r feddyginiaeth yn gweithio i chi, ac a ydych chi'n profi unrhyw sgil-effeithiau diangen.

Os byddwch chi'n methu apwyntiadau, gall eich arbenigwr neu weithiwr gofal iechyd stopio eich triniaeth, felly mae'n bwysig peidio â'u colli.

Os oes gennych chi lyfryn monitro, ewch ag ef gyda chi i bob apwyntiad.

Os byddwch chi'n profi unrhyw sgil-effeithiau diangen o'r driniaeth, dywedwch wrth eich arbenigwr neu'r gweithiwr gofal iechyd yn eich meddygfa.

Os ydych chi'n cymryd unrhyw feddyginiaethau, atchwanegiadau neu feddyginiaethau llysieuol eraill, dywedwch wrth eich arbenigwr a'ch gweithiwr gofal iechyd yn eich meddygfa, a dywedwch wrth weithwyr gofal iechyd eraill hefyd, fel eich fferyllydd neu ddeintydd.

Gwiriwch gyda'ch fferyllydd bob amser cyn i chi brynu meddyginiaethau dros y cownter, gan gynnwys meddyginiaethau llysieuol.

Peidiwch byth â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth oni bai bod eich arbenigwr neu'r gweithiwr gofal iechyd yn eich meddygfa yn eich cynghori i roi'r gorau iddi. Os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw symptomau newydd neu symptomau sy'n gwaethygu, dywedwch wrth eich arbenigwr neu'r gweithiwr gofal iechyd yn eich meddygfa.

Rhowch wybod i'ch arbenigwr a'r gweithiwr gofal iechyd yn eich meddygfa am unrhyw newidiadau yn eich bywyd a allai effeithio ar eich triniaeth.

Rhowch wybod i'ch arbenigwr os byddwch chi'n newid cyfeiriad gan y gallai fod yn rhaid iddyn nhw drefnu cytundeb gofal a rennir newydd gyda meddygfa newydd yn agosach at eich cyfeiriad newydd.

## Beth sy'n digwydd os oes angen newid fy nhriniaeth?

Os bydd eich cyflwr yn newid, neu os oes angen i chi gymryd meddyginiaeth wahanol, bydd eich arbenigwr a'r gweithiwr gofal iechyd yn eich meddygfa yn cytuno ar y camau gweithredu gorau.

## Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i bryderon?

Os oes gennych unrhyw bryderon, neu os nad yw rhywbeth yn glir am eich triniaeth, siaradwch â'ch arbenigwr neu'r gweithiwr gofal iechyd yn eich meddygfa.

Dylech gael manylion cyswllt ar gyfer cefnogaeth gyda'ch triniaeth, gan gynnwys unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnoch yn ystod ac y tu allan i oriau cyswllt arferol.

## A allaf adael trefniant gofal a rennir os byddaf yn newid fy meddwl?

Gallwch, os byddwch chi'n newid eich meddwl, siaradwch â'ch gweithiwr gofal iechyd yn eich practis meddyg teulu neu â'ch arbenigwr i drafod eich pryderon.

## Sut mae fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Dim ond at ddibenion rheoli eich gofal y bydd eich practis meddyg teulu a'ch tîm arbenigol yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Byddant yn dilyn polisïau diogelu data'r GIG a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU). Byddant yn storio eich gwybodaeth yn ddiogel ac yn

ei thrin yn gyfrinachol bob amser. Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth ag eraill heb eich caniatâd.